# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AC ADFYWIO

Dydd Gwener, 13 Tachwedd 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd F. Akhtar (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Davies, W.R.A. Davies, H.L. Davies, D.C. Evans, R.E. Evans, S.J.G. Gilasbey, B.W. Jones, H.I. Jones, S. Matthews, H.B. Shepardson, D. Thomas a/ac G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr C.A. Campbell, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig
E. Dole, Arweinydd y Cyngor
H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd
L.D. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Tai
P. Hughes-Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
L.M. Stephens, Dirprwy Arweinydd y Cyngor

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Fearn, Pennaeth Eiddo Corfforaethol
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
J. Davies, Uwch-reolwr y Gwasanaethau Diwylliannol
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
N Thomas, Senior Outdoor Recreation Manager
J. Willis, Rheolwr Gwasanaethau Tai (Cyngor a Dewisiadau)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner, Swyddog Technegol
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod -. - 10.00 yb - 12.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Cydymdeimlwyd â'r aelodau hynny o'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio a oedd wedi cael profedigaeth yn y teulu yn ddiweddar.

## 2. PENODI CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN DDINESIG 2020/21

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL benodi'r Cynghorydd F. Akhtar yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21.**

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

Gwnaed y datganiad canlynol ynghylch buddiant

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J. Gilasbey | 10 - Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio | Blaenraglen Waith y Bwrdd Gweithredol |

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Nid oedd cwestiynau gan y cyhoedd wedi dod i law.

5. **EFFAITH COVID-19 AR WASANAETHAU ADRAN YR AMGYLCHEDD SY'N BERTHNASOL I'R PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AC ADFYWIO**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol – y Dirprwy Arweinydd (sy'n gyfrifol am y Gwasanaethau Cynllunio), yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai, a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd ar effaith pandemig Covid-19 ar y Gwasanaethau Cyngor hynny a ddarperir gan Adran yr Amgylchedd sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio h.y.: y Gwasanaethau Cynllunio ac Eiddo. Wrth asesu effaith y pandemig ar y gwasanaethau hynny, helpodd yr adroddiadau hefyd i lywio sut y gellid eu hailosod a gwella rhagor ar y ffordd cânt eu darparu yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad wedi'i rannu'n ddwy elfen ar wahân yn cwmpasu'r Gwasanaethau Cynllunio ac Eiddo, ac roedd yn rhoi sylw i effaith Covid-19 o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth, staff a'r Cyngor ac o ran y meysydd gwasanaeth canlynol:

**<u>Y Gwasanaethau Cynllunio</u>**
- Polisi Cynllunio
- Mwynau a Gwastraff (ac eithrio'r elfen orfodi)
- Rheoli Datblygu a Threftadaeth Adeiledig (ac eithrio'r elfen orfodi)
- Rheoli Adeiladu
- Enwi a Rhifo Strydoedd

**<u>Eiddo</u>**
- Tai Newydd
- Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw

Cyfeiriodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor at ddatblygiad Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig y Cyngor, a dywedodd fod Covid, oherwydd y Pandemig, wedi effeithio ar y cyfnod ymgynghori ar y fersiwn Adneuo, er ei fod wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2020. Roedd y pythefnos diwethaf wedi cael eu heffeithio yn yr ystyr bod mynediad i lyfrgelloedd wedi cael ei atal. O ganlyniad, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach o dair wythnos, a oedd wedi cychwyn ar 2 Hydref 2020. Cyfeiriodd hefyd at y ddeddfwriaeth ynghylch y darpariaethau "dyddiad terfynol" ar gyfer y CDLl presennol a dywedodd fod Llywodraeth Cymru, y diwrnod cynt, wedi derbyn

Cytundeb Cyflawni diwygiedig y Cyngor, a oedd yn golygu y byddai'r CDLl presennol yn parhau i fod ar waith hyd nes mabwysiadu'r cynllun newydd ym mis Gorffennaf 2022.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at atal ymweliadau safle gan yr adain Rheoli Datblygu a'r adain Rheoli Adeiladu yn ystod y pandemig, a gofynnwyd a oedd penderfyniad wedi'i wneud ar eu hailddechrau.

  Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, er y byddai angen asesu pob ymweliad safle fesul achos ar hyn o bryd, fod cynigion yn ailddechrau'n raddol, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau Covid-19 oedd mewn grym, er mwyn lleihau i'r graddau mwyaf y posibiliad o ôl-groniad pellach.
- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi llacio'r gofyniad oedd ar awdurdodau cynllunio lleol i benderfynu ar ddosbarthiadau penodol o geisiadau cynllunio o fewn cyfnod o wyth wythnos yn ystod y pandemig. Fodd bynnag roedd y gwasanaeth yn ceisio penderfynu ar geisiadau cyn gynted ag y bo modd, a lle roedd yn amlwg y byddai oedi cyn penderfynu, roedd trafodaethau ynghylch estyniad i'r amser yn cael eu cynnal gydag ymgeiswyr yn unigol.
- Cyfeiriwyd at yr ôl-groniad presennol o geisiadau cynllunio y disgwylid penderfyniad yn eu cylch. Er derbyn bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i fynd i'r afael â'r sefyllfa honno, gan gynnwys cynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cynllunio bob pythefnos, gofynnwyd am syniad pryd y byddai'r sefyllfa'n cael ei hunioni.

  Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod adnoddau ychwanegol wedi'u comisiynu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau nad oedd penderfyniad wedi'i wneud arnynt, a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i unioni'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.
- Cyfeiriwyd at effaith ariannol Covid-19 ar incwm yr Is-adran Gynllunio, a sut y byddai hynny'n effeithio ar ei gallu i sicrhau cyllideb gadarnhaol.

  Cadarnhaodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod incwm wedi gostwng tua thraean yn Chwarter 1 y flwyddyn ariannol gyfredol, ond bod pethau wedi gwella rhywfaint yn Chwarter 2 drwy gyfuniad o ffioedd a dderbyniwyd yn Ch1, na chawsant eu cofrestru tan Ch2, ynghyd â cheisiadau newydd a dderbyniwyd. O ran yr effaith ar gyllideb gyffredinol yr is-adran, dywedodd y Pennaeth Cynllunio y byddai'r cynnydd mewn ffioedd oedd ar fin digwydd yn helpu i sicrhau sefyllfa gyllidebol fwy ffafriol.
- Cyfeiriwyd at ailddechrau rhaglen adeiladu tai newydd y Cyngor, ac at yr anawsterau o ran dod o hyd i rai deunyddiau adeiladu. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa effaith y gallai'r anawsterau hynny ei chael ar amserlenni cyflawni prosiectau.

  Er bod rhai anawsterau wedi bod o ran y gadwyn gyflenwi, dywedwyd wrth y Pwyllgor mai rhai tymor byr fyddai'r rheiny yn ôl pob tebyg.  Fodd bynnag gallent, o bosibl, arwain at gostau datblygu uwch. Er gwaethaf yr anawsterau hynny, cadarnhawyd bod cynlluniau tai newydd y Cyngor yn mynd rhagddynt, fel roedd yr adroddiad yn ei nodi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiadau.**

## 6. EFFAITH Y PANDEMIG COVID AR GARTREFI A CHYMUNEDAU MWY DIOGEL

Cafodd y Pwyllgor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai, ar effaith pandemig Covid-19 ar y gwasanaethau tai o safbwynt defnyddiwr gwasanaeth, staff a'r Cyngor, gan ddarparu gwybodaeth glir am y camau a gymerwyd a llywio'r goblygiadau ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol ac unrhyw wersi allweddol a ddysgwyd. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar faterion cyflawni allweddol a datblygiadau yn y dyfodol yn y meysydd gwasanaeth canlynol:

- Buddsoddi a Darparu Tai yn Strategol;
- Cyngor a Chymorth Tenantiaeth;
- Tai Gwarchod ac;
- Ymgysylltu a Phartneriaethau

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod am unrhyw estyniad y tu hwnt i fis Mawrth 2021 i'w gynllun i ad-dalu costau ychwanegol ar ran awdurdodau lleol yn sgil bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol i gartrefu pobl ddigartref. Er mai'r gobaith oedd y byddai'r cynllun yn parhau'r tu hwnt i'r dyddiad hwnnw, pe na bai'n parhau, byddai goblygiadau ariannol i feysydd gwasanaeth eraill o fewn Tai a Chymunedau Mwy Diogel.
- Soniwyd bod ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu o £1.5m ym mis Hydref 2019 i £1.8m ym mis Hydref 2020, a gofynnwyd a fyddai modd eu hadennill a beth oedd y canlyniadau pe na bai'n bosibl gwneud hynny.

  Atgoffwyd y Pwyllgor gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol y byddai elfen o ôl-ddyledion rhent yn bodoli bob amser o fewn y Cyngor, gan fod tenantiaid yn talu ar ffurf ôl-daliadau. Dyna oedd y sefyllfa ym mhob awdurdod lleol, ac er bod Sir Gaerfyrddin mewn sefyllfa well na rhai awdurdodau eraill, roedd rheoli ôl-ddyledion yn ofalus yn allweddol. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd y mesurau hynny'n cynnwys, er enghraifft, ymyrraeth gynnar lle nodwyd y potensial i ôl-ddyledion gronni, cynorthwyo tenantiaid newydd i reoli eu cyllidebau, nodi budd-daliadau cymwys posibl, a sefydlu cronfa atal i annog tenantiaid i dalu ychydig yn ychwanegol bob mis i leihau eu hôl-ddyledion.

  Dywedodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod yr Awdurdod wedi rhagweld y gallai'r pandemig arwain at ôl-ddyledion uwch, a byddai'n ailasesu'r ddarpariaeth dyledion drwg ac ôl-ddyledion yn ei Gynllun Busnes. Fodd bynnag, yr arwyddion cynnar oedd nad oedd effaith ar y Cynllun Busnes. Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo tenantiaid, roedd yr Awdurdod wedi newid ei weithdrefnau gorfodi a bellach yn rhoi 6 mis o rybudd. O'r blaen roedd camau gorfodi wedi cychwyn ar ôl mis o rybudd.
- Cyfeiriwyd at y mesurau a gyflwynwyd yn ystod y don gyntaf o'r pandemig i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn digartrefedd ar draws y DU, ac at y sefyllfa bresennol lle'r oedd digartrefedd bellach ar gynnydd. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa fesurau oedd yn cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â'r sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin.

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd safbwynt y Cyngor wedi newid ers i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i fynd i'r afael â digartrefedd yn y sir, yn unol â gofynion cyfreithiol. Ar hyn o bryd roedd yr awdurdod yn darparu ar gyfer 119 o bobl ddigartref, ac roedd 18 ohonynt mewn grwpiau teuluol a 101 yn bobl sengl. O'r rheiny, roedd 30 ohonynt mewn gwely a brecwast ac 89 mewn llety dros dro. Roedd yr Awdurdod hefyd yn edrych ar ei gyflenwad tai, ac wrth ddatblygu cynlluniau newydd byddai'n rhaid darparu ar gyfer pobl sengl, a gallai hynny gynnwys creu blociau bach i letya hyd at bedwar person er enghraifft.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod darparu ar gyfer y digartref yn her i'r awdurdod, ac y byddai pwyslais dros y 6-12 mis nesaf ar ddarparu amrywiaeth o lety i ddiwallu eu hanghenion.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. EFFAITH Y PANDEMIG COVID AR WASANAETHAU HAMDDEN Y SIR

Cafodd y Pwyllgor adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, ar effaith pandemig Covid-19 ar y Gwasanaethau Hamdden. Roedd yr adroddiad yn amlygu'r newidiadau a'r heriau a wynebir, gan roi diweddariad ar statws pob maes gwasanaeth a rhoi sylw i gamau cyn-covid, cyn tynnu sylw at yr heriau yn y dyfodol i'r gwasanaeth wynebu cwsmeriaid a'r gwasanaeth creu incwm.

Roedd Adran 2 yn yr adroddiad yn tynnu sylw at effaith Covid ar y gwasanaethau Hamdden ac yn tynnu sylw at y rheiny oedd wedi:-

- Parhau i weithredu drwy'r pandemig;
- Cau yn ystod y cyfyngiadau cychwynnol;
- Ailgychwyn;
- Aros ar gau;

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ar wasanaeth 'clicio a chasglu' y llyfrgell, cadarnhawyd y gellid rhoi gwybod i'r pwyllgor am ystadegau ynghylch faint oedd yn defnyddio'r gwasanaeth
- Mewn ymateb i gwestiwn ar effaith y pandemig ar y safle carafannau teithiol ym Mharc Gwledig Pen-bre, er bod effaith wedi bod ar incwm, cadarnhawyd bod llacio'r cyfyngiadau, a'r ffenomenon 'gwyliau gartref' yn y diwydiant twristiaeth, wedi golygu i'r parc ac ardaloedd arfordirol eraill yn y sir fod yn brysurach nag erioed. Roedd ffigurau incwm mis Awst yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol.

  Gan roi sylw penodol i Safle Carafannau Pen-bre, cafodd y Pwyllgor wybod am y mesurau a gyflwynwyd i hwyluso'r broses o'i ailagor, ynghyd â'r angen parhaus i ailasesu'r mesurau hynny

er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn cydymffurfio â'r rheolau newydd oedd yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r pandemig.
Y gobaith oedd y byddai adferiad o ran sefyllfa ariannol y parc yn ystod tymor 2021/22.

- Mewn ymateb i gwestiynau ar y tri ymweliad safle a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn 2019, dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r disgwyl oedd y byddid yn dod i gytundeb gyda'r Cyngor Tref cyn bo hir ynghylch gweithrediad Y Gât, Sanclêr, yn y dyfodol. Roedd cynllun wedi'i lunio ar gyfer adnewyddu Canolfan Hamdden Sanclêr. Fodd bynnag, o ran ariannu'r gwaith, byddai'n rhaid ei asesu yn erbyn cynlluniau eraill yn rhaglen gyfalaf y Cyngor. Trefnwyd y byddai adroddiad ar Ganolfan Addysg Awyr Agored Pentywyn yn barod ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr.
- Cyfeiriwyd at sefyllfa bresennol theatrau ledled y sir, a oedd ar gau o hyd, a cheisiwyd gwybodaeth am ddarparu digwyddiadau theatr byw drwy gyfrwng digidol. Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi trefnu/darparu nifer o berfformiadau'n ddigidol, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu a hyrwyddo'r ddarpariaeth honno ymhellach dros y misoedd nesaf.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar ddiogelu theatrau yn y dyfodol, dywedodd y Pennaeth Hamdden fod y sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin yn wahanol i ardaloedd awdurdodau lleol eraill gan fod y prif theatrau yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael eu rhedeg ganddo. Er bod y theatrau wedi aros ar gau a bod y staff ar ffyrlo, roedd y Cyngor yn gallu hawlio'r incwm a gollwyd gan fod y theatrau wedi cael eu gorfodi i gau. Y gobaith oedd y byddai cyfuniad o lacio rheolau Covid a'r posibilrwydd o gyflwyno brechlyn yn y dyfodol agos yn golygu y gallai rhai gwasanaethau ailddechrau yn y flwyddyn newydd. Roedd gobaith hefyd y gellid darparu gwasanaeth agos i'r un arferol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021/22, ond byddai hynny'n heriol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD DIWEDDARU COVID-19 AR GYFER ADFYWIO.

Cafodd y Pwyllgor adroddiad, a gyflwynwyd gan Arweinydd y Cyngor (sy'n gyfrifol am Adfywio), ar effaith pandemig Covid-19 ar economi a busnesau Sir Gaerfyrddin ac a nodai'r hyn oedd yn bwysig yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir er mwyn darparu'r cymorth yr oedd ei angen fwyaf arnynt. Tynnodd yr adroddiad sylw at y mesurau a gymerwyd gan y Cyngor yn yr ymateb brys cychwynnol, ynghyd â'r mesurau a gyflwynwyd/oedd yn cael eu cyflwyno fel rhan o Strategaeth Adfer y Cyngor.

Rhoddwyd sylw i'r materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ar fenter 'Deg Tref' y Cyngor, cadarnhawyd y byddai ymgyngoriadau ar hynny'n cychwyn yn fuan drwy lwyfannau digidol rhithwir, a byddai'r Cyngor yn cael ei ddiweddaru wrth i'r cynllun fynd rhagddo.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar hyrwyddo Cyngor Sir Gâr, cadarnhawyd y byddai hynny'n digwydd drwy amrywiaeth o lwyfannau cyfryngol yn unol â chynllun cyfathrebu'r Cyngor.

- Cyfeiriwyd at gostau ariannol y pandemig i'r awdurdod a sut y gallai hynny effeithio ar ei raglen gyfalaf. Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor, er y byddai effaith, fod y rhaglen yn cael ei gwerthuso a'i hail-flaenoriaethu ar hyn o bryd gyda phwyslais ar Ddatblygiad ac Adferiad Economaidd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar gyfraddau diweithdra ar gyfer y grŵp oedran 50+, sicrhawyd y Pwyllgor y byddai rhaglenni adfer y Cyngor yn rhoi sylw i gyfleoedd gwaith i bob grŵp oedran.
- Cyfeiriwyd at ddarparu sgiliau newydd/uwchsgilio, yn enwedig sgiliau digidol ar gyfer y gweithlu hŷn, a pha fesurau oedd yn cael eu cyflwyno i ddiwallu eu hanghenion.

  Dywedodd Arweinydd y Cyngor mai un o brif themâu Rhaglen Bargen Ddinesig Bae Abertawe oedd y Fenter Sgiliau a Thalent sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd, yr oedd y Cyngor yn arwain arni, lle roedd yr ethos ar ailsgilio ac uwchsgilio, a fyddai'n helpu i wella sgiliau'r gweithlu ar draws y rhanbarth. Yn ddiweddar roedd Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig hefyd wedi cymeradwyo cyflwyno Cynllun Pentre Awel y Cyngor i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'w gymeradwyo. Pe bai'n cael ei gymeradwyo, byddai hynny'n creu tua 2,000 o swyddi dros y pum mlynedd nesaf ar draws pob grŵp oedran yn rhanbarth y fargen ddinesig. Roedd Rhaglen Gyfalaf y Cyngor hefyd yn targedu creu swyddi fel prif thema.

  Dywedodd y Pennaeth Adfywio fod y Fenter Sgiliau a Thalent yn cydnabod yr angen i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau a hyfforddiant ar sail ranbarthol mewn partneriaethau, a byddai'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr addysg gan gynnwys Coleg Sir Gâr yn hynny o beth. Er sylweddoli bod sgiliau digidol pobl yn amrywio, byddai'r Cyngor hefyd yn ail-gyflwyno staff cyflogadwyedd i'w ganolfannau hwb cyn hir ar ddydd Mawrth a dydd Iau i gynorthwyo pobl, drwy apwyntiad, i gyrchu gwybodaeth ddigidol.

  Dywedodd hefyd fod 'lleoliaeth' yn bwysig o ran cynorthwyo adferiad economaidd, ac roedd y Cyngor yn edrych ar ei brosesau caffael i weld y ffordd orau y gallai'r economi leol elwa drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau iddo. Amcangyfrifwyd pe bai'r Cyngor yn cynyddu ei wariant ar nwyddau a gwasanaethau lleol 10% y byddai hynny'n cyfateb i wariant o £30m, gan arwain at gynnydd mewn cyfleoedd swyddi lleol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2019/20

Cafodd y Pwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod blwyddyn y cyngor 2019/20 i'w ystyried. Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor a'i fod yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Bwrdd Gweithredol, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen a sesiynau datblygu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 10. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AC ADFYWIO AR GYFER 2020/21

(NODER: Roedd y Cynghorydd J. Gilasbey wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach)

Bu'r Pwyllgor, yn unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor, yn ystyried ei Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer 2020/21 a oedd yn nodi materion ac adroddiadau i'w hystyried yn ystod blwyddyn y cyngor mewn perthynas â'r cyfnod Tachwedd 2020-Ebrill 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaenraglen Waith drafft 2020/21.**

## 11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5ED CHWEFROR 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2020 yn gywir.**

____________________________ _____________________
**CADEIRYDD** **DYDDIAD**